

Agenda – Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Committee Room 1	Naomi Stocks
Dyddiad: Dydd Iau, 25 Mai 2017	Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.00	0300 200 6565
	SeneddCymunedau@cynulliad.cymru

Rhag-gyfarfod (09.00 – 09.15)

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
- 2 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru): sesiwn dystiolaeth 7 – Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant**
(09.15 – 10.45) (Tudalennau 1 – 26)

Carl Sargeant AM, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
John G Rees Rheolwr Bil, Llywodraeth Cymru
Katie Wilson Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

[Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig \(Cymru\)](#)
[Memorandwm Esboniadol](#)

3 Papurau i'w nodi

Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog mewn perthynas â thlodi

(Tudalennau 27 – 34)



Llythyr gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mewn perthynas â'r Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

(Tudalen 35)

Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant mewn perthynas â'r Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

(Tudalennau 36 – 38)

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Egwyl (10.45 – 11.00)

5 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru): trafod y materion allweddol

(11.00 – 12.00)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Ein cyf/Our ref: MA-P/FM-/1460/17

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ann Jones AC
Dirprwy Lywydd
Cadeirydd
Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-15-17 Papur 1 / Paper 1

4 Mai 2017

Annwyl Ann

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 6 Ebrill yn gofyn am ragor o wybodaeth ar ôl imi ymddangos gerbron y Pwyllgor Craffu ar 17 Chwefror.

Rwy'n croesawu diddordeb parhaus yr aelodau yn ein dull gweithredu a hoffwn ail-bwysleisio bod yn rhaid inni, yn ystod y cyfnod tyngedfennol hwn, wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau ffyniant i bawb. Gwyddom fod ffyniant yn dod â sicrwydd i bob unigolyn, bob teulu a phob cymuned yng Nghymru.

Atodaf ymateb ysgrifenedig sy'n ymdrin â'r cwestiynau a ofynnir yn eich llythyr.

Yn gywir

CARWYN JONES

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog - Gwybodaeth Ychwanegol

Cwestiwn 1: *Sut yr ydych yn bwriadu monitro a gwerthuso canlyniadau'r dull newydd a'r ymyriadau a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a yw'n fwrriad gennyh i sefydlu targedau neu ddangosyddion newydd mewn perthynas â lleihau tlodi neu liniaru ei effeithiau.*

Ymateb:

Mae cynyddu ffyniant a chefnogi economi gref sy'n creu cyfleoedd gwaith cynaliadwy sy'n hygyrch i bawb yn rhan hanfodol o'n dull o drechu tlodi. Mae ffyniant yn rhoi sicrwydd i unigolion, i deuluoedd ac i gymunedau ac mae'r dystiolaeth yn glir mai gwaith sy'n talu'n dda yw'r llwybr gorau i ddianc rhag tlodi, a'r amddiffyniad cryfaf i'r rhai sydd mewn perygl o wynebu tlodi. Bydd monitro'r cynnydd ac adrodd amdano yn y meysydd hyn yn rhan hanfodol o sut y byddwn yn monitro cynnydd Cymru, yn ogystal â chyfraniad Llywodraeth Cymru.

Mae'r 46 o Ddangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn 2016 yn cynnig fframwaith cenedlaethol er mwyn deall y cynnydd y mae Cymru'n ei wneud o ran dod yn wlad ffyniannus, cydnerth, iachach, ac yn wlad fwy cyfartal a chyfrifol yn fyd-eang, gwlad â diwylliant bywiog, lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a'i chymunedau'n gydlynus. Bydd y Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru yn galluogi'r Llywodraeth, Aelodau'r Cynulliad ac unrhyw ddinesydd yng Nghymru i gael gwybod pa gynnydd sy'n cael ei wneud ar lefel Cymru o ran cyflawni'r saith nod llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys dangosyddion sy'n berthnasol i dlodi megis y rhai sy'n ymwneud ag amddifadedd materol (#19), pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETs) (#22), datblygu plant ifanc (#6), a phlant sy'n dilyn ffordd iach o fyw (#5). Bydd yr adroddiad blynyddol statudol cyntaf am gynnydd tuag at y saith nod llesiant, drwy gyfeirio at y dangosyddion cenedlaethol, yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2017. Byddwn yn edrych ar y rôl y gall cerrig milltir cenedlaethol ei chwarae wrth fesur cynnydd o'i gymharu â'r nodau llesiant maes o law. Mae llawer o bethau'n newid o'n hamgylch ac rwyf am sicrhau y bydd y ffordd y byddwn yn mynd ati i bennu'r cerrig milltir yn effeithiol.

Mae *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021* yn nodi'r pedwar maes lle y gallwn gael y dylanwad mwyaf a'r prif gamau y byddwn yn eu cymryd - Ffyniannus a Diogel, Iach ac Egniol, Uchelgais a Dysgu, ac Unedig a Chysylltiedig. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu tystiolaeth o'r effaith yr ydym wedi'i chael a byddwn yn adrodd ar y cynnydd bob blwyddyn. Rydym yn dal i werthuso er mwyn profi a yw ein polisïau a'n rhaglenni'n effeithiol ac yn darparu gwerth da am arian, a yw'r pum egwyddor lefel uchel ar gyfer ymchwil a sefydlwyd yn 2014 yn sail i'n hymrwymiad i werthuso'r hyn a wnawn mewn ffordd effeithiol. Byddwn yn sicrhau bod ein gweithgarwch gwerthuso wedi'i anelu at gefnogi'r broses benderfynu.

Dolenni

Symud Cymru Ymlaen 2016-2021

<http://gov.wales/about/programme-for-government>

Dangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Cymru:

Cwestiwn 2: *Sut y mae pob un o'ch Ysgrifenyddion Cabinet a'ch Gweinidogion yn ceisio cynyddu ffyniant o fewn eu portffolios, yn unol â'ch bwriad i drechu tlodi fod yn gyfrifoldeb a rennir ar gyfer holl adrannau'r llywodraeth ac Aelodau Cabinet.*

Ymateb:

Rydym wedi mabwysiadu dull amlddimensiwn o sicrhau ffyniant i bawb. Rhoddwyd y dasg i bob un o Ysgrifenyddion y Cabinet ac i bob Gweinidog nodi cyfleoedd i gydweithio er mwyn creu'r amgylchiadau lle y gall Cymru fod yn genedl lwyddiannus, lewyrchus sy'n ffynnu, a hynny o ran cyfoeth ariannol a hefyd o ran iechyd a llesiant unigolion.

Bydd y gwaith hwn yn cynnwys canolbwyntio ar roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn. Ni ddylai'r hyn a gyflawnir gan rywun pan fydd yn oedolyn ddibynnu ar amgylchiadau ei deulu pan oedd yn blentyn. Gall buddsoddi yng ngwasanaethau'r blynyddoedd cynnar - iechyd, addysg a chymorth i rieni - gael dylanwad sylweddol ar gyfleoedd bywyd plant ac mae'r rhain yn ddulliau hanfodol o dorri'r cylch tlodi.

Drwy ganolbwyntio ar ffyniant i bawb, cydnabyddir y rôl hanfodol sydd i economi gref a chyfleoedd i gael gwaith a sgiliau ar gyfer gwaith o ran mynd i'r afael â'r hyn sydd wrth wraidd tlodi a lleihau anghydraddoldebau yng Nghymru. Gwaith sy'n talu'n dda yw'r llwybr gorau i ddianc rhag tlodi a'r amddiffyniad cryfaf i'r rhai sydd mewn perygl o fod mewn tlodi. Bydd cynyddu ffyniant i bawb fel hyn yn cynnwys canolbwyntio ar greu gwell swyddi'n nes at gartrefi pobl; lliniaru'r rhwystrau y bydd pobl yn eu hwynebu rhag cael gwaith, aros mewn swydd a chamu ymlaen ynddi; a gwneud yr hyn a allwn i sicrhau bod pobl yn ennill cymaint o incwm â phosibl. Bydd galluogi pobl i gael gwaith, aros mewn swydd a chamu ymlaen ynddi yn allweddol er mwyn helpu pob unigolyn i wneud yn dda. Bydd ein dull gweithredu yn cynnwys camau i arfogi pobl â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i sicrhau swydd ac i feithrin economi gref.

Rydym hefyd yn cydnabod bod iechyd da yn hanfodol er mwyn caniatáu i bobl ffynnu. Byddwn yn cefnogi iechyd a llesiant y genedl drwy fuddsoddi mewn darpariaeth iechyd effeithlon a chynaliadwy.

I ategu hyn, rydym wrthi'n datblygu pedair strategaeth drawsbynciol i adeiladu ar sut y byddwn yn cyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn Symud Cymru Ymlaen. Mae Symud Cymru Ymlaen yn nodi ein prif flaenoriaethau ar gyfer gwella ein heconomi a'n gwasanaethau cyhoeddus yn gwella. Mae'r rhain yn gamau uchelgeisiol, gyda'r nod o wneud gwahaniaeth i bawb, yn ystod pob cam o'u bywydau.

Rydym wedi nodi'n glir mai dim ond drwy ddulliau newydd o weithio y mae modd mynd i'r afael â'r anawsterau yr ydym yn eu hwynebu, er mwyn symud y wlad gyfan yn ei blaen a chyfrannu at gyrraedd y nodau yr ydym yn eu rhannu. Mae Symud Cymru Ymlaen yn dweud sut y byddwn yn gweithio'n wahanol ar draws ffiniau traddodiadol i gyflawni ein blaenoriaethau a bydd y strategaethau'n cynnig fframwaith ar gyfer ein ffordd o weithio ar draws y Llywodraeth. Bydd y strategaethau'n cael eu cyhoeddi cyn toriad yr haf, a byddwn yn dangos ein bod yn mynd i newid ein ffordd o wneud penderfyniadau ac o weithio er mwyn gwireddu ein

blaenoriaethau. Bydd ein dull o sicrhau ffyniant i bawb yn cael ei ymgorffori ymhellach mewn portffolios wrth i'r pedair strategaeth sylfaenol symud ymlaen tuag at y cam cyflawni.

Cwestiwn 3: *Y diffiniad manwl o 'ffyniant' y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio a sut yr ydych yn bwriadu sefydlu sut y byddai llwyddiant yn edrych.*

Ymateb:

Ein nod ar gyfer ffyniant i bawb yng Nghymru yw creu'r amgylchiadau a'r cyfleoedd i bobl a chymunedau, lwyddo, llewyrchu a ffynnu, yn enwedig yn ariannol. Ar gyfer y rhai sydd mewn gwaith, mae hyn yn golygu cael safon byw weddus gyda rhagolygon sicr am waith sy'n eu galluogi i wireddu eu potensial. Ar gyfer y rhai nad ydynt mewn gwaith, mae'n golygu ymwneud â gweithgareddau sy'n cynnig y cyfle i lwyddo a ffynnu, ac i gymunedau, mae'n golygu creu'r amgylchedd lle maent yn ffynnu ac yn llawn bywyd. Gydol yr amser, rhaid inni fod yn gosod y sylfeini ar gyfer mwy o gyfle cyfartal a dosbarthu incwm yn decach ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cwestiwn 4: *Sut y bydd cymorth ar gyfer pobl nad yw cyflogaeth yn opsiwn realistig, megis rhai pobl sydd â salwch cronig neu anabledau, plant a phobl hŷn, yn cael ei gynnal a'i ddatblygu o fewn ffocws cyffredinol ffyniant economaidd.*

Ymateb:

Mae ein dull newydd o helpu pobl i gael gwaith a hyfforddiant yn golygu bod nifer o bobl nad yw cyflogaeth wedi bod yn opsiwn realistig iddynt bellach yn gallu cael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt i'w helpu i gael gwaith.

Drwy ddatblygu cynllun cyflogadwyedd i Gymru a rhaglen gyflogadwyedd i bobl o bob oed, byddwn yn gweithio gyda'r rhai sy'n economaidd anweithgar sy'n dweud y byddent yn hoffi gweithio ac yn cynnig cymorth ychwanegol i'w helpu i oresgyn rhwystrau cymhleth. Rhai o'r rhwystrau hyn y rhoddir cymorth i'w goresgyn fydd cymorth i fynd i'r afael â chyflyrau iechyd (iechyd meddwl yn benodol), yn ogystal â'r angen fathau eraill o gymorth e.e. gofal plant a help gyda chludiant.

Byddwn yn symleiddio'n cynnig presennol i greu un rhaglen gyflogadwyedd i bobl o bob oed a fydd yn fwy ymatebol a hyblyg i ddiwallu'n well anghenion pobl ddi-waith, pobl nad ydynt mewn cyflogaeth lawn a chyflogwyr.

At hynny, mae ein Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol yn dweud sut rydym yn mynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol sy'n llesteirio cydraddoldeb a chynhwysiant er mwyn i bobl anabl allu manteisio ar yr un cyfleoedd â phawb arall. Mae'n nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer gweithredu y mae pobl anabl eu hunain yn sôn amdanynt, gan gynnwys trafndiaeth, tai a mynediad i adeiladau a mannau eraill, yn ogystal â chyflogaeth. Mae cysylltiad rhwng y meysydd hyn i gyd: a phob un yn rhan o jig-so y mae angen iddo fod yn gyflawn er mwyn inni greu cymdeithas sy'n galluogi pobl.

Rydym ar hyn o bryd yn ymgysylltu â phobl anabl a'r cyrff sy'n eu cynrychioli gyda'r nod o ddatblygu Fframwaith Gweithredu diwygiedig yn ddiweddarach eleni. Bydd

hwn yn adeiladu ar y gwaith yr ydym wedi'i wneud ar draws y Llywodraeth er 2013 a bydd yn ein helpu i barhau i fynd i'r afael â'r meysydd anghydraddoldeb sydd o'r pwys mwyaf i bobl anabl o bob oed yng Nghymru

I'r unigolion hynny sydd â chyflyrau iechyd ac anableddau sy'n eu hatal rhag gallu cael gwaith, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn darparu ystod o fudd-daliadau lles megis y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'r Taliad Annibyniaeth Personol.

Mae Llywodraeth y Deyrnas unedig wedi ymgynghori'n ddiweddar ar ei Phapur Gwyrdd: 'Improving Lives: Work, Health and Disability' ac yn ein hymateb, croesawodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i adolygu'r broses asesu bresennol i unigolion sy'n cael y budd-daliadau hyn. Mae angen deall bod asesu dro ar ôl tro y bobl hynny sydd â chyflyrau mor ddifrifol fel na allant weithio am gyflog yn amharu'n ddifrifol ar eu hiechyd meddwl.

Yn yr un modd, croesawodd Llywodraeth Cymru adolygiad o brosesau asesu'r Taliad Annibyniaeth Personol sydd unwaith eto'n gallu achosi trallod mawr i unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae angen symleiddio'n sylweddol y ffordd o ddarparu tystiolaeth a dylai fod yn amod bod unigolion yn cydsynio i rannu gwybodaeth berthnasol am eu hiechyd. Bydd swyddogion yn cydweithio'n agos ac yn barhaus â'r Adran Gwaith a Phensiynau ar ddatblygiadau ym maes y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'r Taliad Annibyniaeth Personol a diwygiadau eraill i Fudd-daliadau Lles.

Cwestiwn 5: Sut y bydd dull newydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda grwpiau a chymunedau sy'n anghyfarwydd â rhaglenni prif ffrwd sy'n ceisio gwella ffyniant economaidd, megis cymunedau sipsiwn a theithwyr.

Ymateb:

Drwy ein Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol, rydym yn gweithio i chwalu'r pethau hynny sy'n rhwystro cynhwysiant ar draws grwpiau cymdeithasol sydd wedi'u gwthio i'r cyrion, gan leihau gwahaniaethu annheg ac erledigaeth.

Ochr yn ochr â'r Cynllun Cydlyniant Cymunedol, bydd ein Rhaglen Cyllido Cydraddoldeb a Chynhwysiant ar gyfer 2017-2020 yn cynnig cymorth strategol a chynghor i unigolion, grwpiau a chymunedau sy'n wynebu risg benodol o gael eu gwthio i'r cyrion. Mae a wnelo'r rhaglen hon ag anabledd; rhywedd; rhywioldeb; troseddau casineb; ffoaduriaid a cheiswyr lloches; sipsiwn a theithwyr, a hil.

Rydym yn gwneud rhagor i helpu pob aelwyd i fod yn fwy cyflogadwy ac i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hynny sy'n bodoli ar hyn o bryd o ran canlyniadau iechyd ac addysg a chanlyniadau economaidd. Yn benodol gyda golwg ar Sipsiwn a Theithwyr, drwy ein Fframwaith Gweithredu a'n Cynllun Cyflawni 'Teithio at Ddyfodol Gwell' a gyhoeddwyd yn 2011, mae Llywodraeth Cymru yn helpu grwpiau a chymunedau i fanteisio ar raglenni a gwasanaethau prif ffrwd gyda'r nod o wella ffyniant economaidd yn y pen draw. Byddwn hefyd yn ymgynghori â chymunedau Sipsiwn a Theithwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill ar Gynllun Cyflawni 'Teithio at Ddyfodol Gwell' yn ddiweddarach eleni. Nod y Cynllun fydd sicrhau bod y

cymunedau hyn yn gallu manteisio ar wasanaethau a bydd yn cwmpasu'r camau sydd eu hangen i'w helpu mewn meysydd megis addysg, llety, iechyd a chyflogaeth.

Mae a wnelo lleihau anghydraddoldeb a threchu tlodi â mwy na dim ond incwm. Mae a wnelo hefyd â helpu aelwydydd i sicrhau gwell canlyniadau. O 1 Ebrill ymlaen, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r prosiect 'Teithio Ymlaen' yn Tros Gynnal Plant i ddarparu Gwasanaeth Cyngori ac Eiriolaeth newydd ar gyfer Cymru gyfan. Bydd y gwasanaeth hwn yn helpu'r Gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i ddeall eu hawliau'n well, i gael cyngor ac eiriolaeth o safon, ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwahaniaethu. Yn ogystal â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi £14 miliwn a'i ddyrannu i brosiectau rhwng 2011-17 sydd wedi arwain at greu 53 o leiniau newydd yn ogystal â gwella llawer o'r lleiniau sy'n bodoli eisoes ar safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ledled Cymru.

Bydd y ddeddf newydd, Deddf Tai (Cymru) 2014, yn sicrhau hefyd y bydd awdurdodau lleol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddarparu unrhyw leiniau preswyl sy'n weddill y mae eu hangen yn eu hardaloedd hwy ledled Cymru fel y nodwyd yn eu Hasesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr. Mae £26.4 miliwn arall wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru at y diben hwn, rhwng 2017-2020 a byddwn yn monitro'r cynnydd tuag at wireddu'r amcan hwn yn ofalus.

Cymunedau yn Gyntaf

Rydym yn croesawu eich cydnabyddiaeth o'r angen i barhau i fuddsoddi mewn rhaglenni sydd â'r nod o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a chefnogi pobl i fyw bywydau iachach, megis rhoi'r gorau i ysmegu ac atal Diabetes Math 2. Fodd bynnag, o ystyried bod llawer o'r prosiectau hyn wedi cael eu darparu drwy Cymunedau yn Gyntaf, byddem yn gwerthfawrogi rhagor o wybodaeth am sut y bydd y cyllid ar gyfer y prosiectau a'r rhaglenni gwella iechyd hyn yn cael ei ddarparu yn y dyfodol

Ymateb:

Er mwyn lliniaru effaith dirwyn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben fesul tipyn, bydd cyfnod pontio blwyddyn o hyd i'r Prif Gyrrff Cyflawni hyd fis Mawrth 2018. Bydd hyn yn darparu cyllidebau a fydd yn 70% o ddyraniadau'r flwyddyn gyfredol, cronfa Waddol gwerth £6 miliwn i gadw prosiectau gorau a mwyaf effeithiol y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a £4 miliwn ychwanegol o arian cyfalaf i helpu i amddiffyn asedau cymunedol gwerthfawr.

Mae'r Prif Gyrrff Arwain ar hyn o bryd yn datblygu eu cynlluniau pontio manwl ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-18, a'r rheini wedi'u seilio ar fras gynlluniau a gyflwynwyd ddiwedd mis Mawrth. Gwaith y Prif Gyrrff Arwain, gyda chyfraniad gan eu cymuned, fydd penderfynu beth fydd y blaenoriaethau lleol a'r anghenion yn eu hardal. Rhan o'r gwaith cynllunio hwn fydd bod y Prif Gyrrff Arwain yn ystyried y ffyrdd amgen o gefnogi prosiectau presennol Cymunedau yn Gyntaf os byddant yn penderfynu na fyddant bellach yn cael eu hariannu drwy'r rhaglen Waddol.

Bydd y Prif Gyrrff Arwain yn cydweithio'n agos â'r Byrddau Gwasanaethau Lleol ac yn ystyried pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r asesiadau perthnasol o lesiant lleol. Yn naturiol, mae swyddogion yn rhoi cymorth

llawn i'r Prif Gyrff Arwain yn ystod y broses hon a bydd y cynlluniau terfynol yn cael eu cyflwyno ddiwedd mis Mai 2017.

Hoffem hefyd wybod sut y bydd dirwyn Cymunedau yn Gyntaf i ben yn effeithio ar ôl troed daearyddol rhaglenni eraill megis Esgyn, Dechrau'n Deg a Cymunedau am Waith.

Ymateb:

Mae'r rhaglen Cymunedau am Waith ar hyn o bryd wedi'i chymeradwyo tan 2020, gyda chymorth gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, a bydd yn parhau i weithio o fewn ffiniau daearyddol presennol Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyhoeddi y bydd y Grant Cyflogadwyedd newydd gwerth £12 miliwn y flwyddyn yn cael ei gyflwyno o fis Ebrill 2018 ymlaen a fydd yn darparu'r seilwaith i helpu i barhau i ddarparu Cymunedau ar gyfer Gwaith a datblygu ar yr hyn a ddysgwyd yn sgil Rhaglen Esgyn. Bydd y Grant Cyflogadwyedd yn ddigon hyblyg i weithio y tu hwnt i ffiniau Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf a hefyd yn y tri awdurdod lleol nad ydynt yn elwa ar Cymunedau yn Gyntaf, sef Ceredigion, Powys a Sir Fynwy.

Bydd y rhaglen Dechrau'n Deg yn parhau i gael ei darparu fel y bu, gan dargedu meysydd drwy ddefnyddio data a gesglir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM. Mae'r data'n nodi'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is sydd â'r gyfran uchaf o deuluoedd ar fudd-daliadau incwm a phlant o dan 4 oed. Yna, bydd yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is hynny sydd â'r nifer fwyaf o deuluoedd ar fudd-daliadau incwm ym mhob ardal awdurdod lleol yn cael eu targedu gan y rhaglen. Felly, er bod ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn aml yn ardaloedd Dechrau'n Deg hefyd, mae'r ail raglen yn seiliedig ar ddadansoddi data ac nid ar fodolaeth ardal Cymunedau yn Gyntaf.

Oherwydd mai rhaglen sydd wedi'i thargedu'n ddaearyddol yw Dechrau'n Deg, mae'n rhaid gosod y ffin yn rhywle a gall hyn fod yn destun peth pryder, yn enwedig pan fydd teuluoedd mewn un stryd yn elwa o'r rhaglen ac na fydd teuluoedd y stryd nesaf yn gallu manteisio arni. Serch hynny, mae elfen allgymorth yn perthyn i'r rhaglen sy'n galluogi awdurdodau lleol i dargedu teuluoedd anghenus iawn sy'n byw y tu allan i'r ardal Dechrau'n Deg, ond a fyddai'n elwa o'r rhaglen. Mae'r meini prawf a bennwyd gan yr awdurdodau lleol er mwyn manteisio ar yr elfen allgymorth yn sicrhau bod y rhaglen yn gallu helpu'r teuluoedd mwyaf anghenus hynny.

Cyfleusterau chwarae i blant ag anableddau

Yn olaf, yn ystod ymgysylltiad y Pwyllgor â rhanddeiliaid lleol cyn y cyfarfod, soniwyd am y diffyg cyfleusterau chwarae a hamdden integredig sy'n addas ar gyfer plant ag anableddau. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu gwybodaeth am p'un a yw Llywodraeth Cymru yn cymryd camau a sut y mae'n gwneud hynny er mwyn helpu i gynyddu nifer y cyfleusterau chwarae cyhoeddus integredig ar gyfer plant ag anableddau ledled Cymru.

Ymateb:

Mae'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i asesu a, lle y bydd hynny'n ymarferol, i sicrhau bod digon o gyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc yn eu hardaloedd.

Rhaid i'r asesiad gynnwys a oes cyfleoedd chwarae ar gael i blant anabl ac a ydynt yn eu cynnwys gall hyn gynnwys cymorth i fanteisio ar gyfleoedd chwarae. Dylai hefyd ystyried a oes darpariaeth arbenigol ar gael i blant anabl os gwelir bod angen amlwg am hyn.

Mae'r ddyletswydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddrafftio Cynlluniau Gweithredu ar gyfer Chwarae ac rydym yn cydweithio â nhw i roi'r cynlluniau hyn ar waith. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2016-17 rydym wedi darparu £1.5 miliwn i awdurdodau lleol drwy gyfrwng Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan. Mae hyn wedi cael ei ddefnyddio i sicrhau cyfleoedd i blant chwarae, gan roi ystyriaeth arbennig i blant sy'n byw mewn teuluoedd ar incwm isel, plant anabl, a phlant sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu rai sy'n ei chael hi'n anodd manteisio ar y ddarpariaeth. Darparwyd cyllid hefyd i Groundworks Wales a Snap Cymru i ddarparu gweithgareddau chwarae i blant a hyfforddiant i weithwyr chwarae ym maes chwarae a chymorth cynhwysol i blant anabl.

Pennaeth Tai a'r Economi/Head of Housing and Economy
Stephen Bayley

Adran Tai a'r Economi, Ffordd Rhuthun, Wrexham. LL13 7TU
Housing and Economy Department, Ruthin Road, Wrexham. LL13 7TU
Ffôn/Tel: 01978 292440 Ffacs/Fax: 01978 315320 BT Text Phone: 01978 292067
www.wrexam.gov.uk www.wrexham.gov.uk



Equality, Local Government and
Communities Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Eich Cyf/Your Ref
Ein Cyf/Our Ref
Dyddiad/Date
Gofynner am/Ask for
Rhif Union/Direct Dial
E-bost/E-mail

SB/JMF/AH/MB
10 May 2017
Mrs Michelle Berry
01978 315352
michelle.berry@wrexham.gov.uk

Dear Sir

Scrutiny of the Abolition of the Right to Buy and Associated Rights (Wales) Bill

Further to your e-mail dated the 3 May 2017, which asked for any comments or suggested changes to the draft information document which is intended to be sent to relevant landlords and tenants, if the Bill is passed by the National Assembly.

I would like to make the following comments:

- Will the information be provided to social landlords in a bilingual format (English & Welsh) and will it be available in any other languages
- Draft flowchart – within the box which refers to let as social housing between DATE and DATE. Which dates will this refer to?

I trust this information is of assistance.

Yours faithfully

M Berry

Michelle Berry
Project Officer

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-15-17 Papur 3/ Paper 3

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant

12 Mai 2017

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet

Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru)

Diolch i chi am eich llythyrau diweddar yn darparu gwybodaeth ychwanegol mewn perthynas â Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) ('y Bil').

Yn y cyfarfod ddoe, cytunodd y Pwyllgor y dylwn i ysgrifennu atoch yn gofyn am eglurhad ar nifer o faterion cyn eich sesiwn dystiolaeth ar 25 Mai.

- Wrth ddatblygu cynigion y Bil:
 - pa waith a wnaeth Llywodraeth Cymru i ymgynghori â thenantiaid a sut wnaethoch chi sicrhau eich bod yn cael amrywiaeth eang o safbwyntiau;
 - a wnaethoch chi ofyn am farn tenantiaid mewn ardaloedd lle mae'r hawl i brynu a'r hawl i gaffael eisoes wedi cael eu hatal, ac a wnaethoch chi ofyn am eu barn am godi'r gwaharddiad i roi cyfle olaf iddynt brynu eu cartrefi cyn y diddymu arfaethedig;
- Rydym wedi cael tystiolaeth gan randdeiliaid yn nodi na fydd tenantiaid sy'n byw mewn ardaloedd awdurdod lleol lle mae'r hawl i brynu (a hawliau



cysylltiedig) eisoes wedi cael eu hatal o dan y Mesur Tai 2011 yn cael cyfle pellach i arfer yr hawliau hynny. (O dan y Mesur, bydd tenantiaid eraill yn cael cyfnod o flwyddyn o leiaf i arfer eu hawliau.) A allwch roi manylion ynghylch pa ystyriaeth gyfreithiol rydych chi wedi'i rhoi mewn perthynas â'r canlynol:


- disgwyliadau dilys y tenantiaid yn yr ardaloedd lle mae'r hawliau wedi'u hatal, os ymgynghorwyd â nhw ynghylch atal eu hawliau ac nid ynghylch eu diddymu;
 - hawliau dynol y tenant o ran Erthygl 1 Protocol 1 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae paragraff 3.33 o'r Memorandwm Esboniadol, o dan y teitl Hawliau Dynol, yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn ystyried bod cyfnod o ddeuddeg mis i denantiaid arfer eu hawliau "yn sicrhau'r cydbwysedd teg sydd ei angen rhwng hawliau'r tenant a budd ehangach y cyhoedd i ddiogelu'r stoc o dai cymdeithasol." Sut ydych chi'n cyfiawnhau'r ffaith nad oes gan denantiaid yn yr ardaloedd hynny lle mae'r hawliau wedi'u hatal unrhyw amser i arfer eu hawliau;
 - hawliau dynol y tenant o ran gwahaniaethu o dan Erthygl 14 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol lle bydd tenantiaid sy'n byw mewn gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol yn cael eu trin yn wahanol; a'r
 - risg y bydd tenantiaid yr effeithir arnynt yn yr ardaloedd hynny lle mae'r hawliau wedi'u hatal ar hyn o bryd yn cychwyn adolygiad barnwrol, fel y nodwyd yn y dystiolaeth sydd wedi dod i law.
- Yn eich llythyr dyddiedig 30 Ebrill, fe wnaethoch chi roi eglurhad defnyddiol o ddiben adrannau 2 a 4 o'r Bil a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael. Yn dilyn ymlaen o hyn, hoffem pe gallech amlinellu pam mae'r adrannau hyn wedi'u drafftio i gyfeirio at gyfyngu ar yr hawl i brynu a hawliau cysylltiedig oni bai ei fod yn annedd o 'stoc a osodwyd yn flaenorol'. Er eglurder, a allai'r



adrannau hyn gyfeirio yn lle hynny at yr hawl i brynu a hawliau cysylltiedig o ran "aneddau sy'n newydd i'r stoc tai cymdeithasol"?

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ymateb cyn y cyfarfod ar 25 Mai, ac erbyn dydd Iau 18 Mai yn ddelfrydol.

Yn gywir



John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

